**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 2 Tachwedd 2023 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| C R Doyle | W G Lewis | P Lloyd |
| S J Rice | W G Thomas | T M White |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth Gwasanaethau Eiddo |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Kristy Tillman | Rheolwr Prosiect |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: Dim.

---

## 18 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 19 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 21 Medi 2023 fel cofnod cywir.

## 20 Prosiectau Strategaeth Bae Abertawe

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo, gyda chymorth y Rheolwr Prosiect, adroddiad diweddaru ar y sesiwn weithdy a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023, a oedd yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu Cyrtiau Tenis Langland fel rhan o Gynllun Cyflawni Bae Abertawe.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo drosolwg o'r lleoliadau posib, a nodwyd dan 6 chyrchfan a gafodd eu hystyried yn ystod y sesiynau gweithdy.

Roedd yr awgrymiadau a drafodwyd yn y gweithdy ar 4 Gorffennaf 2023 yn cynnwys y canlynol:

- Creu Cynllun Rheoli Cyrchfannau i ategu'r cyrchfannau.
- Hyrwyddo twristiaeth drwy gydol y flwyddyn.
- Rhaid i unrhyw ddatblygiad gynnwys cynllun teithio.
- Gwneud yn fawr o lan y môr - mwy o westai, cyfleoedd masnachol.
- Creu cynnig er budd ymwelwyr a chymunedau lleol.
- Creu mwy o gyfleusterau caffi a thoiledau ar hyd yr arfordir a rhywle y gallwch brynu bwced a rhaw ar hyd y ffordd.
- **Blackpill** - ystyried cyfleoedd masnachol ar gyfer y promenâd, gwella'r lido, canolfan i ymwelwyr.

- **Langland** - cyfleoedd masnachol i gynnwys; fflatiau moethus,

toiledau, bwyty/bwytai a gwestai bwtîc er budd ymwelwyr ac i'w denu i'r ardal.

- **St Helen's** - Pont y Slip - caffi uchel ar y tywod.
- **Y Rec** - gwasanaeth parcio a theithio, parcio aml-lefel, fflatiau o werth uchel.

Roedd yr awgrymiadau a drafodwyd yn y gweithdy ar 23 Hydref 2023 yn cynnwys y canlynol:

- Archwiliwyd cyfleoedd datblygu ar gyfer Bae Langland. Roedd yn hollbwysig y byddai datblygiad hyfyw yn cyflwyno cyfleoedd a buddion ar y cyfan i'r gymuned a'r cyhoedd, gan hyrwyddo cyfleoedd masnachol ar yr un pryd.
- Mireinio'r manylion ar gyfer Langland a farchnatawyd gan B2P ar ran Cyngor Abertawe yn ystod 2020.
- Chwilio am gyfleoedd i'r gymuned ac ymwelwyr fel cyrchfan fforddiadwy fel datblygiad defnydd cymysg.
- Lleoliad aros a bwyta dibreswyl - fflatiau moethus, gwesty a bwyty.
- Gweithgareddau hamdden.
- Manwerthu.
- Cyfleusterau cyhoeddus a chyfleusterau newid newydd.
- Ymgorffori gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ac ataliol.
- Cabannau glan môr (llogi dyddiol/wythnosol).
- Datblygiad lefel isel.
- Lesddaliad 125 o flynyddoedd.
- Ceisio cynigion cyfalaf **a** refeniw gan bob parti â diddordeb gyda'r bwriad o wneud y mwyaf o enillion ariannol.
- Refeniw yn gysylltiedig â chanran y trosiant gyda chynnydd graddol ar ôl cyfnod diffiniedig.
- Pwyslais ar arbedion costau a meintioli budd.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth at y safleoedd eraill yn ardal Bae Abertawe a fyddai'n elwa o gael eu harchwilio.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo y byddai angen cyllid ac adnoddau ar y safleoedd yn ardal Bae Abertawe, oni bai fod trydydd parti yn dod ymlaen. Roedd Blackpill, yn benodol, yn safle a all fod angen ymgysylltu ag ymgynghorwyr.

Cafwyd trafodaeth a gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r Swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hadroddiad llawn gwybodaeth.

**Penderfynwyd:**

1) Drafftio briff datblygu diwygiedig yn unol â chanfyddiadau gweithdai diweddar fel y disgrifir yn eitem 2 yr adroddiad.
2) Bydd y Pwyllgor yn cefnogi noddi Aelodau Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth a Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad i ddatblygu a chytuno ar gynllun cyflawni hyfyw ar gyfer Cyrtiau Tenis Bae Langland fel blaenoriaeth dan Strategaeth Bae Abertawe.

## 21 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd 'er gwybodaeth' ar gyfer 2023-2024.

Nodwyd y pynciau i'w trafod yn y cyfarfod dilynol:

- 14 Rhagfyr 2023

  Fframwaith Strategol y Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adolygiad o Bolisi Dyrannu Tai'r cyngor a oedd wedi’i ohirio tan gyfarfod yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.21pm

**Cadeirydd**